

Y Llinell Gwaelod

**Beth y mae rhieni yn dymuno'i gael
oddi wrth y gwasanaeth cyflenwadau
ymataliaeth ar gyfer plant a phobl
ifanc yng Nghymru?**

Ysgrifennwyd gan Martin Davies, Swyddog Prosiect Pediatrig, Cyswllt Teulu Cymru

Fe ellir cael rhagor o gopiau oddi wrth:

Cyswllt Teulu Cymru
33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB

Ffôn: 029 2039 6624
E-bost: martin.davies@cafamily.org.uk
Gwefan: www.cafamily.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 284912

Rhagymadrodd

Y mae'r cyflenwad o gynnyrch ymataliaeth yn wastad yn un o'r pum pwnc uchaf ar gyfer trafodaeth pa bryd bynnag yr ydym yn cyfarfod â grŵp o rieni. Yn ôl ym mis Medi, 2003, fe wnaeth Cyswllt Teulu Cymru gynnal ymgynghoriad gyda rhieni plant anabl fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (FFGC y Plant).

"Pam eich bod, os ydych yn byw mewn un ardal, yn cael mwy nag mewn un arall, y mae'r naill berson yn cael tri, y mae'r llall yn cael wyth? Os yw plentyn yn wael ac y mae angen mwy, ni allwch eu cael hwynt – y mae'r gwasanaeth danfon yn echrydus, y maent yn aml yn cael eu gadael y tu allan i bawb i weld"

Rhiant – Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, Ymgynghoriad Rhieni, Adroddiad Modiwl Plant Anabl, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cyswllt Teulu Cymru, Medi 2003.

Yn ystod gwanwyn 2007, fe aeth yna riant o Gonwy at Cyswllt Teulu Cymru ac fe ddywedodd wrthym am y problemau y mae'n dal i'w hwynebu oherwydd bod ei merch yn defnyddio cyflenwadau ymataliaeth ac fe ofynnodd hi inni gynorthwyo'i hymgyrch i wella gwasanaethau ymataliaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Drwy ffawd, fe wnaeth sgysiau gyda dau riant arall yn Abertawe a Wrecsam ddatgelu eu bod hwythau hefyd wedi profi anawsterau gyda'r gwasanaeth.

Y mae'r adroddiad byr hwn wedi'i seilio ar yr ymatebion i holiaduron a gwblhawyd gan rieni yng Nghonwy a Sir Ddinbych, Abertawe a Wrecsam, ond, y mae'r dyheadau a gynhwysir ynddo'r un yn union â dyheadau'r teuluoedd yr ydym ni'n gweithio â hwynt drwy Gymru i gyd. Diben yr adroddiad yw amlygu'r problemau a wynebier gan deuluoedd plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cyflenwadau ymataliaeth ac i wneud awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth ymataliaeth ym mhob rhan o Gymru.

Fe hoffai Cyswllt Teulu Cymru ddiolch i'r holl rieni a gymrodd ran.

Sut y byddai'r gwasanaeth delfrydol yn edrych?

• Gwasanaeth sydd yr un fath ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru

Y mae ond edrych ar dair ardal yng Nghymru, sef Abertawe, Conwy a Sir Ddinbych a Wrecsam, wedi dangos inni nad yw gwasanaethau cyflenwadau ymataliaeth yn deg a bod rhai teuluoedd yn cael llawer gwell bargaen nag eraill.

Pam bod yn rhaid i deuluoedd yn Abertawe orfod teithio i fan casglu canolog yng nghanol y dref i nôl eu cyflenwadau tra bod teuluoedd yng Nghonwy a Sir Ddinbych a Wrecsam yn gallu cael eu cyflenwadau wedi'u danfon? Pam y gall rhai rhieni gael clytiau neu badiau ychwanegol os ydynt yn darhod tra bod eraill yn cael eu gwrthod?

Ers cryn amser bellach, y mae dogfennau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru – y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (FfGC y Plant), er enghraifft – wedi siarad am ddarparu gwasanaethau o ansawdd sydd yr un fath ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru. I gefnogi hyn, fe fyddem yn annog y Cynulliad i ddatblygu polisi i Gymru gyfan ar gyfer cyflenwadau ymataliaeth.

• Gwasanaeth sy'n rhoi urddas y rhieni, plant a phobl ifanc wrth ei graidd

I rieni, pryder sylfaenol yw y dylent hwy a'u plant allu cael mynediad at y gwasanaeth heb deimlo cywilydd a cholli urddas. Y mae'r mater hwn yn gwaelodoli llawer o'r pwyntiau a godwyd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, megis cael digon o glytiau neu badiâu.

“ Mae'r gwasanaeth ymataliaeth, er eu bod yn eitha' parod eu cymorth, yn dweud na allant gyflenwi rhagor. Yn y pen draw, mae'n fater o iechyd a lles, yn ogystal ag yn fater o urddas. Maent yn dweud 'cadwch y pad arno tan yn llawn' – maent yn pantio erbyn hynny ac yn drewi. Nid yw hyn yn dderbyniol. ”

Rhiant

neu'n cael eich darparu gyda'r cynnyrch cywir:

“ Mae clytiau'n codi cywilydd arni hi, yn enwedig yn yr haf – pan fo hi'n gwisgo trowsus byr, mae'r clwt yn syrthio rhwng ei choesau. ”

Rhiant

ond y mae hefyd yn ymwneud ag agwedd aelodau staff a'r ffordd y mae defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu trin:

“ Fe ddylwn allu cael at ragor o gyflenwadau heb YMBIL ac yna gael ein gwrthod gan ryw ddynes ddideimlad ar y pen arall i'r ffôn nad oes ganddi *unrhyw* syniad sut fath o fywydau sydd gennym ac na allai falio dim. ”

Rhiant

“ Fe fyddai agwedd fwy llawn cydymdeimlad a gofalgwr oddi wrth y person sy'n derbyn yr archebion yn fanteisiol. ”

Rhiant

Fe ddylai unrhyw bolisi ar gyfer cyflenwi cynnyrch ymataliaeth osod urddas defnyddwyr y gwasanaeth a pharch tuag atynt fel gwerthoedd craidd.

• Gwasanaeth sy'n darparu'r nifer o glytiau neu bediau i deuluoedd y mae arnynt eu hangen

Y mae nifer y clytiau neu'r padiau a ddyrannir yn amrywio'n enfawr. Fe wyddom am rieni y dyrannir 2.5 o bediau iddynt y dydd a hefyd fe wyddom am rai y dyrannir 8 o bediau iddynt y dydd. Y ffactor pwysicaf yw i rieni gael cynnyrch digonol i ddiwallu anghenion eu plentyn.

“ Mae cael dyraniad o 2.5 o glytiau'r dydd yn annigonol, mae'r adran ymataliaeth yn anhyblyg ac nid ydynt yn gwirioneddol bryderu am les y plentyn. ”

Rhiant

Y mae'r ffaith nad yw rhieni'n cael cyflenwadau ymataliaeth digonol i ddiwallu anghenion eu plant, ynghyd â'u hanallu i gael rhagor o gyflenwadau yn ddi-dâl pan maent yn darfod, yn golygu, wrth gwrs, bod llawer o rieni'n talu am glytiau a phadiau'n rheolaidd.

“ Nid wyf yn cael digon wedi'u cyflenwi ar gyfer fy mhlentyn, ond dywedir wrthyf mai dyna pam y caf Lwfans Byw i'r Anabl i brynu padiau ychwanegol. ”

Rhiant

Fe all gwaeledd olygu bod ar blant a phobl ifanc angen mwy o glytiau neu bediau. Fe all rhieni sydd wedi llwyddo hyd yn hyn gyda'r cyflenwad a ddyrannwyd iddynt ganfod yn ddisymwth eu bod wedi darfod tra i'r rhieni hynny na ddyrannwyd cyflenwadau digonol iddynt, fe wneir y broblem yn waeth.

“ Fe ddyrannir 2.5 o glytiau'r dydd i fy merch, ac felly yr ydym yn aml yn brin o glytiau ac yr ydym yn gorfod prynu 'deunydd tynnu i fyny' o'r siopau. Os ydym yn defnyddio mwy na'r defnydd a ddyrannwyd inni, hyd yn oed o ganlyniad i waeledd, nid ydym yn gallu cael rhagor. ”

Rhiant

“ Mae gan ein merch broblemau gyda'r coluddyn a'r bledren, yn ychwanegol at oediad datblygiadol difrifol, ac felly mae'n rhaid ei newid hi'n rheolaidd er mwyn rhwystro briwiau a haint ar y croen; 'rydym yn canfod nad yw 8 o bediau'r dydd yn aml yn ddigon ond dyma'r uchafswm y gallwn ei gael ac yr oedd yn rhaid inni ymladd i gael hyn. ”

Rhiant

Fe ddylid dyrannu cyflenwadau ymataliaeth ar sail anghenion ac nid eu dogni. Fe ddylai rhieni allu cael y nifer priodol o glytiau neu bediau heb orfod ymbil neu ymladd.

Fe ddylai'r Gwasanaeth Cyflenwadau Ymataliaeth fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i rieni gael mwy o gyflenwad pan fo arnynt eu hangen (yn ystod amseroedd o waeledd, er enghraifft).

Ni ddylai rhieni orfod talu am gynnyrch ymataliaeth ar gyfer eu plant.

• Gwasanaeth danfon dibynadwy ar gyfer cynnyrch ymataliaeth

Y mae cyflenwadau ymataliaeth yn swmpus a thrwm, ac eto nid yw rhai rhieni, y rhai hynny yn Abertawe er enghraifft, yn cael eu cyflenwadau wedi'u danfon iddynt. Yn hytrach, y maent yn nôl cyflenwadau eu hunain o ganol y dref, parcio'r car beth pellter ymaith a cherdded:

“ Mae gorfod eu nôl hwynt yn anghyfleus iawn. Nid oes yna le parcio ac y mae'r cyflenwadau'n drwm iawn. ”

Rhiant

“ 'Rwyf yn nôl fy nghyflenwadau o Orchard St Central Clinic, mae'n anodd iawn parcio yn yr ardal hon ac y mae'r padiau'n drwm ac yn anhylaw i'w cludo am bellter maith. ”

Rhiant

Mewn ardaloedd eraill, y mae cyflenwadau ymataliaeth yn cael eu danfon i'r cyfeiriad cartref, ond fe erys problemau:

• Archebu drwy gyfrwng peiriant ateb ffôn

Yr oedd yna rieni a deimlai fod hwn yn ddull annibynadwy. Yr oedd rhai wedi archebu cynnyrch drwy gyfrwng ffôn ateb a heb eu derbyn:

“ 'Rydym ond yn gobeithio bob mis bod yr archeb wedi'i derbyn gan mai peiriant ateb ydyw. Yn ddiweddar, 'roedd yn rhaid inni fynd am bythefnos heb ddim un gan nad oedd yr archeb wedi cyrraedd eu pen hwy ac y mae'n cymryd pythefnos o'r cyfnod archebu i ddanfon. ”

Rhiant

“ ...wedi gadael negeseuon ar y peiriant ateb ond heb dderbyn y cynnyrch. ”

Parent

“ Nid yw'r ffordd o'u harchebu hwynt (h.y. gadael neges ar beiriant ateb) yn ddull dibynadwy. ”

Rhiant

• Danfoniadau sy'n annibynadwy a ddim yn gwybod pa ddiwrnod y caiff cyflenwadau'u danfon.

“ Ddim yn cael eu danfon ar y diwrnod y trefnwyd. 'Roedd yn rhaid inni aros am dri diwrnod. ”

Rhiant

“ Mae'n rhaid inni ffonio bythefnos cyn y maent i fod i gyrraedd i archebu'n cyflenwad. Yn wastad yn cael peiriant ateb – Byth yn sicr o'r dyddiad danfon. Pam na allant ddanfon ar yr un pryd bob dau fis? ”

Rhiant

- **Gwasanaeth danfon sy'n anhyblyg**

“ ‘Rydym yn y bôn wedi bod yn ddedwydd gyda'r gwasanaeth, ond y mae braidd yn anhyblyg – yn enwedig o ran y dyddiad danfon, e.e. os gofynnwn am ddanfoniad cynnar oherwydd gwyliau ac yn y blaen, nid yw hyn yn digwydd, ond nid oes neb yn galw i ddweud wrthym. ”

Rhiant

Y mae blychau a pheynnau o gyflenwadau ymataliaeth yn swmpus ac yn anhylaw i'w trin. Y mae rhai rhieni'n methu â'u nôl hwynt. Y mae gwasanaeth danfon ar gyfer cyflenwadau ymataliaeth yn rhaganghenraid.

Fe ddylai pob archeb am gynnyrch ymataliaeth gael ei chydabod, boed drwy alwad ffôn neu e-bost.

Fe ddylid cytuno ar ddyddiad danfon sy'n gyfleus i'r ddwy ochr, ac os bydd angen newid y trefniadau, fe ddylid hysbysu teuluoedd.

- **Gwasanaeth sy'n darparu cynnyrch o ansawdd da sy'n addas i'r diben**

Y prif fater yn y fantol yma yw i rieni gael cyflenwad o gynnyrch sy'n gwneud yn union yr hyn y bwriadwyd iddynt wneud. Yn neilltuol, y mae angen i glytiau a phadiau ffio'n iawn a pheidio â gollwng:

“ Ddim digon o amsugnedd i blentyn 14 mlwydd oed sy'n tyfu. ”

Rhiant

“ Hyd yn oed gyda phad yn y clwt, fe all ef o hyd wlychu'r gwely, oherwydd ei fod yn gorwedd ar ei ochr ac y mae'n tryddiferu'r ffordd honno. ”

Rhiant

Y mae angen darparu cynnyrch ymataliaeth o ansawdd da i rieni sy'n gweithio'n iawn.

Fe ddylai'r cynnyrch a gyflenwir gael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.

• Gwasanaeth sy'n hyblyg, sy'n cynnig dewis ac sy'n ymatebol i anghenion y sawl sydd yn ei ddefnyddio

Y mae angen i'r gwasanaeth cyflenwadau ymataliaeth fod yn hyblyg mewn amryw o ffyrdd. Y mae gan wahanol blant a phobl ifanc wahanol anghenion ac ar wahanol adegau. Yr ydym eisoes wedi gweld bod ar rai plant angen mwy o glytiau neu badiâu nag eraill, yn enwedig pan fônt yn wael. Y mae hefyd yn wir nad yw cynnyrch sy'n addas i un plentyn neu berson ifanc o angenrheidrwydd yn mynd i fod yn addas i un arall.

Fe deimlai amryw o rieni y byddai'u plant yn elwa o ddefnyddio cynnyrch llai swmpus:

“ Mae'r padiau'n enfawr a gydag araen o blastig. Maent yn twymo fy merch, a thrwy hynny'n peri ffittiau iddi. Maent hefyd yn swmpus iawn rhwng ei choesau. Mae ganddi broblem gydag ymledu'i choesau pa un bynnag - mae'r padiau'n ei gwaethygu. Mae hi'n gwisgo siwt orthosis leicra i geisio â dod â'i choesau ynghyd, sy'n gwneud dim synnwyr gyda maint y pad. ”

Rhiant

“ Maent yn dda am amsugnedd ond yn llawer rhy swmpus. Mae fy mhlentyn yn lledu'i goesau ac y mae ganddo ail groen i geisio â goresgyn hyn, ond y mae'r clytiau'n gweithio yn erbyn hyn oherwydd y trwch rhwng ei goesau. ”

Rhiant

Yr oedd rhieni eraill eisiau cynnyrch a oedd yn cydweddu ag oedran a chyfnod datblygiad eu plentyn:

“ Mae fy merch yn ledi ifanc ac fe fyddai'n well mewn 'deunydd tynnu i fyny' yn hytrach na chlytiau. ”

Rhiant

Y mae gan blant eraill alergeddau:

“ Mae (fy mab) yn sensitif i latecs yn elastig clytiau. Mae gan y clytiau a ddarperir gan Pampers Extrafit lawer o elastig ynddynt sy'n gwneud ei ecsema yn waeth. Mae'n rhaid imi brynu fersiwn brand Tesco'u hunain sydd â llai o elastig ynddynt. Fe ofynnais a allai fod yna glytiau gwahanol sy'n cael eu cyflenwi gyda llai o latecs. Fe'm hysbyswyd nad oedd hyn yn bosibl. ”

Rhiant

Fe ddylai'r gwasanaeth cyflenwadau ymataliaeth gynnig dewis o gynnyrch i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc.

Fe ddylai'r cynnyrch a gyflenwir gael ei adolygu bob hyn a hyn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal i fod y cynnyrch mwyaf addas sydd ar gael.

Crynhoi – Yr hyn y mae rhieni plant a phobl ifanc anabl eisiau oddi wrth y Gwasanaeth Cyflenwadau Ymataliaeth

• Gwasanaeth sydd yr un ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru

Ers cryn amser bellach, y mae dogfennau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru – y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (FfGC y Plant), er enghraifft – wedi siarad am ddarparu gwasanaethau o ansawdd sydd yr un fath ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru. I gefnogi hyn, fe fyddem yn annog y Cynulliad i ddatblygu polisi i Gymru gyfan ar gyfer cyflenwadau ymataliaeth.

• Gwasanaeth sy'n rhoi urddas y rhieni, plant a phobl ifanc wrth ei graidd

Fe ddylai unrhyw bolisi ar gyfer cyflenwi cynnyrch ymataliaeth osod urddas defnyddwyr y gwasanaeth a pharch tuag atynt fel gwerthoedd craidd.

• Gwasanaeth sy'n darparu'r nifer o glytiau neu bediau i deuluoedd y mae arnynt eu hangen

Fe ddylai cyflenwadau ymataliaeth gael eu dyrannu ar sail anghenion ac nid cael eu dogni. Fe ddylai rhieni allu cael y nifer priodol o glytiau neu bediau heb orfod ymbil neu ymladd.

Fe ddylai'r Gwasanaeth Cyflenwadau Ymataliaeth fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i rieni gael mwy o gyflenwad pan fo arnynt ei angen (yn ystod amseroedd o waeledd, er enghraifft).

Ni ddylai rhieni orfod talu am gynnyrch ymataliaeth i'w plant.

• Gwasanaeth danfon dibynadwy ar gyfer cynnyrch ymataliaeth

Y mae blychau a phecynnau o gyflenwadau ymataliaeth yn swmpus ac yn anhylaw i'w trin. Y mae rhai rhieni'n methu â'u nôl hwynt. Y mae gwasanaeth danfon ar gyfer cyflenwadau ymataliaeth yn rhaganghenraid.

Fe ddylai pob archeb am gynnyrch ymataliaeth gael ei chydabod, boed drwy alwad ffôn neu e-bost.

Fe ddylid cytuno ar ddyddiad danfon sy'n gyfleus i'r ddwy ochr, ac os bydd angen newid y trefniadau, fe ddylid hysbysu teuluoedd.

- **Gwasanaeth sy'n darparu cynnyrch o ansawdd da sy'n addas i'r diben**

Y mae angen darparu cynnyrch ymataliaeth o ansawdd da i rieni sy'n gweithio'n iawn.

Fe ddylai'r cynnyrch a gyflenwir gael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.

- **Gwasanaeth sy'n hyblyg, sy'n cynnig dewis ac sy'n ymatebol i anghenion y sawl sydd yn ei ddefnyddio**

Fe ddylai'r gwasanaeth cyflenwadau ymataliaeth gynnig dewis o gynnyrch i ddiwallu anghenion bob plentyn a pherson ifanc.

Fe ddylai'r cynnyrch a gyflenwir gael ei adolygu bob hyn a hyn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal i fod y cynnyrch mwyaf addas ar gael.

Nodiadau